

# KITCHIN, ANTHONY (alias Dunstan cyn ei gysegru) (1477 - 1563), esgob Llandaf o 1545 hyd 1563

**Enw:** Anthony Kitchin  
**Dyddiad geni:** 1477  
**Dyddiad marw:** 1563  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** esgob Llandaf  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Lawrence Thomas

Mynach o urdd S. Benedict ydoedd. Bu'n astudio yn Gloucester College (Worcester College yn awr), Rhydychen (B.D. 1525, D.D. 1538). Daeth yn brior ei goleg yn 1526 ac ymadael yn 1530 i fod yn abad Eynsham. Pan ddiddymwyd yr abaty yn 1539 cafodd bensiwn o £133 6s. 8d., a dyfod yn gaplan brenhinol yn fuan wedyn, ac, yn 1545, yn esgob Llandaf. Yn y palas esgobol ym Mathern yr oedd yn byw ac oddi yno y gweinyddai ei esgobaeth. Bu'n esgob o dan deyrnasiad pedwar o'r Tuduriaid, ac am hynny, ac oherwydd ei gyhuddo o ysbeilio ei esgobaeth, daethpwyd i feddwl yn ddrwg ohono. Yn wyneb holl ddadleuon crefyddol ei gyfnod mabwysiadodd ef fath o agwedd 'cui bono' a rhoes gyffelyb ryddid i eraill. Ymdrechodd yn galed ac yn amyneddgar i achub [Rawlins White](#), y pysgodwr o Gaerdydd, rhag merthyrdod. Nid ydoedd yn erlidiwr fel y credai un g r eglwysig o fri. Ef ydoedd yr unig esgob yn nheyrnasiad Mari a wrthododd apelio at y pab am ollyngdod rhag sism.

Gan [Rice Merrick](#) yr achwynwyd gyntaf oll (1578) fod Kitchin yn ysbeilio'r esgobaeth; dywedai [Merrick](#) ei fod yn peri colli arian i'r esgobaeth ym mater prydlesoedd. Aeth yr [esgob Godwin](#) gam ymhellach (1603), gan ei gondemnio am werthu ffermydd yr esgobaeth a rhoi prydlesoedd ar eraill am 'extremely small payments.' Adroddir iddo fynd ag un brydles i Lundain a'i cholli. Ymddengys mai diffyg cynneddf dyn busnes yn hytrach na gwanc am elw oedd ei wendid. Amgylchynid ef gan w r ag ynddynt wanc am dir, ac nid oedd ei swyddogion, hwythau, yn ddifai; dylid cofio hefyd mai lleygwyr oedd y comisiynwyr a fu'n peri difodi'r siantrïau (1548) ac eiddo eglwysig (1552-3), ac iddynt hwythau, felly, ysbeilio'r esgobaeth. Gan iddo fedru anfon i'r archesgob Parker ar fyr rybudd (mewn llai na thair wythnos) adroddiad yngl n â'r plwyfi a'r offeiriad, y mae'n rhaid credu ei fod yn weinyddwr da a'i fod yn bur gyfarwydd a'i esgobaeth; dengys yr adroddiadau a wnaeth i Parker yn 1561 a 1563 fod gwellhad yn yr esgobaeth a chynnydd yn nifer yr offeiriad plwyfol, a bod mwy o'r clerigwyr a oedd yn byw allan o'u plwyfi yn cyflogi curadiaid, Bu farw 31 Hydref 1563 ym Mathern ac yno y claddwyd ef.

## Awdur

Yr Archddiacon Lawrence Thomas, (1889 - 1960)

## Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

Lawrence Thomas, *The Reformation in the Old Diocese of Llandaff* (1930)

*Cardiff Records* (1898-1911)

W. de Gray Birch, *Memorials of the see and cathedral of Llandaff derived from the Liber landavensis, original documents in the British museum, H. M. record office, the Margam muniments* (Castell Nedd 1912)

## Dolenni Ychwanegol

Madeline Gray, ['The Disaster of our Estate': Anthony Kitchin and the diocese of Llandaff](#)

Wikidata: [Q4772886](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

